



ELECTRONIG **RHAGLEN**
GYFOETHOGI
SESIYNAU TIWTORIAL I
FYFYRIWR

CANLLAW TIWTORIAID
2022 / 2023



Canllawiau'r Rhaglen Diwtorial i Fyfyrrwyr Trosolwg

Mae gan yr holl fyfyrwyr llawn amser hawl i raglen o diwtorialau sy'n gwella eu profiad tra maent yng Ngrŵp Colegau NPTC, gan hybu gwelliannau mewn cadw a chyflawni ymhlith y myfyrwyr, a'u cynnydd i astudio pellach a/neu gyflogaeth.

Mae'r rhaglen diwtorial yn cynnwys dwy elfen:

1. Cefnogaeth fugeiliol/academaidd un i un unigol - OnTrack
2. Rhaglen Gyfoethogi Sesiynau Tiwtorial i Fyfyrrwyr (E-STEP)

Mae'r elfen gyntaf yn sicrhau bod y dysgwyr i gyd yn cael cefnogaeth unigol drwy adolygu, pennu targedau a chynllunio i weithredu yn rheolaidd. Bwriad yr ail elfen yw datblygu amrywiaeth o sgiliau i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd i astudio pellach neu i gyflogaeth, a datblygu eu sgiliau dysgu am oes yn gyffredinol.

Sylwer: Mae'r cyflwyniad yn orfodol ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn Un a rhaglenni dysgu (RhD) blwyddyn. Cwblheir hyn yn rhannol yn ystod y cyfnod cyflwyno a thrwy gydol yr hanner tymor cyntaf, yn E-STEP, gan ddibynnu ar anghenion y rhaglen ddysgu (RhDd).

Tiwtorialau un i un Unigol

Mae'r Rhaglen Gyfoethogi Sesiynau Tiwtorial i Fyfyrrwyr yn y RhD yn datgan disgwyliadau ar gyfer tiwtorialau un i un. Dyma'r disgwyliadau gofynnol:

Blwyddyn 1 - Tri un i un y flwyddyn (lleiafswm)

- Un yn ystod y pedair wythnos gyntaf
- Un arall yn ystod y tymor cyntaf
- Un y tymor wedi hynny

Blwyddyn 2 - Dau un i un y flwyddyn (lleiafswm)

Dylai'r rhain ganolbwyntio ar gynnydd academaidd (adolygu, pennu targedau, cynlluniau gweithredu) a hefyd rhoi cyfle i ddysgwyr drafod materion a allai greu rhwystrau o ran eu dysgu. Fel rheol bydd y tiwtorial un i un yn cymryd rhwng 10 a 15 munud y dysgwr ac fe'i cofnodir ar OnTrack.

Grŵp STEP/CBC

Yr arfer gorau yw pan mae elfennau o E-STEP yn cael eu gosod yn eu cyd-destun gyda'r prif gymhwyster; mae E-STEP yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol i ddysgwyr mewn cyfweiliadau am swyddi ac AU.

Mae E-STEP yn cynnwys chwe maes dysgu (dangosir isod); dylai POB UN o'r chwe maes dysgu gael sylw naill ai drwy diwtorial neu fel rhan o'u prif raglen. Dylai'r pynciau gorfodol gael sylw yn y tiwtorial a'r sesiynau sefydlu:



Menter a
Chyflogadwyedd



Cymraeg
@NPTCG



Llythrennedd
Digidol



Cyfrifoldeb
Byd-eang a
Chymunedol



Ffordd o
Fyw a
Llesiant
Personol



Sgiliau
Dysgu

Canllawiau – Siart Llif o'r Broses Diwtorial

Y nod yw arwain staff o ran y broses diwtorial er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr yn cael y cyfleoedd mwyaf addas yn eu sesiynau tiwtorial.

Blwyddyn 1 / LP un flwyddyn Sesiynau Sefydlu

E-STEP / WBQ SCC Craidd (os yw'n berthnasol) / Pennu Targedau

Dylid ymdrin â PHOB un o'r chwe phwnc naill ai drwy weithgareddau tiwtorial yn y brif raglen astudio neu drwy Sgiliau Cwricwlwm Craidd.

Dylid cynnwys neu gyfeirio at dystiolaeth ychwanegol fel ffotograffau, fideos, gweithgarwch ar-lein, datganiadau tystion, cofnodion ac aseiniadau fel sy'n briodol gydag esboniad.

Bydd cyfle i ddefnyddio adnoddau dysgu cyfunol i gwmpasu pynciau.

Gellir rhoi pynciau mewn cyd-destun i'r brif raglen cyn belled ag y bo modd ond rhaid i'r dysgwyr fod yn ymwybodol o'r hyn y maent wedi'i wneud a'i ddysgu ym mhob pwnc.

Bydd rhai gwerthusiadau anffurfiol yn digwydd mewn dosbarthiadau tiwtorial gan ddefnyddio cwisiau symudol neu Kahoot / Menti.



Myfyriwr yn cwblhau neu'n symud ymlaen i Flwyddyn 2

Blwyddyn 2 L3 Rhaglen Gynnydd

Gan gynnwys cynllunio gyrfa a chymhwyso swydd / cwrs / sesiynau Targed

Gall y pynciau gynnwys:

Blwyddyn fwch / Cyflogaeth / UCAS / Ymchwil / Prosiectau Unigol WBQ / Gwirfoddoli / Profiad Gwaith / Teithio / Hyfforddiant Proffesiynol / Interniaethau / Gwydnwch / GATE / Darpariaeth MAT / EPQ / Cambridge PreU

- Bydd y sesiynau tiwtorial yn cael eu harsylwi fel rhan o broses hunanasesu'r Coleg yn ystod y flwyddyn academiaidd.
- Bydd digwyddiadau rhannu arfer da yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd drwy gydol y flwyddyn.

Tiwtorialau Myfyrwyr Canllawiau ar gyfer Tiwtoriaid

Mae gan fyfyrwyr Grŵp Colegau NPTC hawl i ddarpariaeth tiwtorial a fydd yn cael ei chyflwyno gan wella eu profiad dysgu a datblygu amrywiaeth o sgiliau, gan gynnwys Llythrennedd, Rhifedd a Llythrennedd Digidol.

Dylai esiampiau o Gynlluniau Gwaith ar gyfer pob lefel weithredu fel canllaw i alluogi tiwtoriaid i gyflwyno gweithgareddau sy'n cynnwys themâu'r Craidd Dysgu ac yn galluogi iddynt gysylltu â digwyddiadau a gweithgareddau'r Coleg, digwyddiadau cenedlaethol ac wythnosau thema. Ni ddylai'r Cynlluniau Gwaith fod yn rhy fanwl oherwydd gellir eu haddasu a'u gosod mewn cyd-destun i ddiwallu anghenion y myfyrwyr mewn grwpiau a rhaglenni dysgu (RhD) penodol.

Yng Ngrŵp Colegau NPTC, mae iechyd a llesiant yn bwysig ac rydym yn cynnal digwyddiadau a chystadlaethau drwy gydol y flwyddyn yn gysylltiedig ag iechyd a llesiant, e.e. Sioe Deithiol Ymwybyddiaeth o Iechyd, bwyta'n iach, diogelwch ar y ffordd, Go Active, gweithgareddau meysydd dysgu ac ymwybyddiaeth o fwlio. Mae'r gweithgareddau a'r digwyddiadau hyn yn cysylltu â'r pwnc Ffordd o Fyw a Llesiant Personol yn y E-Raglen Gyfoethogi Sesiynau Tiwtorial i Fyfyrwyr.

Hefyd mae'r Coleg eisiau i fyfyrwyr arddangos eu dysgu a'u cyflawniad yn y tiwtorialau. Efallai y bydd cyfleoedd yn codi i diwtoriaid, gan weithio gyda Phennaeth yr Ysgol, ddarparu deunyddiau arddangos ar gyfer hysbysfyrddau neu ystafelloedd dosbarth sy'n cymell myfyrwyr ac yn gwella'r amgylchedd dysgu.

Mae adnoddau i gefnogi pynciau pob un o'r chwe maes dysgu yn y E-Raglen Gyfoethogi Sesiynau Tiwtorial i **Fyfyrwyr** i'w cael yn Amgylchedd Dysgu Rhithiol y Coleg. Ewch i dudalen flaen Moodle a chlicio ar y tab tiwtorialau E-STEP i weld yr adnoddau hyn o dan y penawdau penodol.



Amserlen y Rhaglen Diwtorial - Blwyddyn 1

Gweler y Cynllun Gwaith penodol ar E-STEP

Wythnos	Pynciau'r Tiwtorial	Y Gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio
29 Awst 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Croeso i'r coleg ▪ Sesiwn Sefydlu/Gwler y Canllaw ar gyfer Tiwtoriaid: Sesiynau Sefydlu ▪ Sesiynau Torri'r Iâ ▪ Sgwrs Groeso ▪ Sgrinio Llyth/Rhif/Llyth Dig a hefyd ymarfer sillafu ac arddweud ▪ Taith o amgylch y campws/cwis ▪ Gwirio amserlenni ▪ Ble mae cael help a chefnogaeth: Cymorth i Fyfirwyr; diogelu llesiant ▪ Cyflwyniad i wydnwch rhan 1 – beth ydyw a pham mae'n bwysig? ▪ Pum sgil Gwydnwch: gwranddo gweithredol, datrys problemau, rheoli emosiynau, gweithio gyda phobl eraill a chael help. 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Sesiynau Sefydlu ▪ Gwybodaeth gysylltiedig â'r cwrs ▪ Pwerbwyt Sefydlu
5 Medi 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cod ymddygiad myfirwyr – ymddygiad a disgwyliadau ▪ Polisi Presenoldeb Myfirwyr – esbonio'r broses ar gyfer absenoldebau a bod yn hwyr ▪ On-track – arwain y myfirwyr drwy hwn ▪ Adolygu presenoldeb grŵp ▪ Unrhyw bryderon? ▪ Cyfleoedd Cynnwys Myfirwyr 	<p>Sesiynau Sefydlu (parhâd)</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Holi am unrhyw bryderon
12 Medi 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Pwysigrwydd pennu targedau a MEG ▪ Sgiliau Astudio/Dulliau Dysgu ▪ Dysgu annibynnol 	<p>Sgiliau Dysgu: Cyflwyniad i bennu targedau a gwella dyheadau</p> <p>Diwrnod Iechyd Meddwl Ieuentid 19 Medi 2022</p> <p>Wythnos Iechyd Rhywiol 13-18 Medi 2022</p>
19 Medi 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Diogelwch ar-lein/sut i warchod eich hun ar-lein ▪ Cyfrifoldeb digidol ▪ Pwysigrwydd cyfrineiriau ▪ Gwarchod eich hun ar y cyfryngau cymdeithasol ac enw da ar-lein ▪ Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol 	<p>Llythrennedd Digidol</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Diwrnod Bi Visibility: 23 Medi 2022 ▪ Diwrnod Iechyd Meddwl Ieuentid 19 Medi 2022
26 Medi 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Gwerthoedd Prydeinig: Hunaniaeth a Diwylliant, Parch, Democratiaeth, Tegwch, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 	<p>Ffordd o fyw a Llesiant Personol: Gwerthoedd Prydeinig</p>

3 Hydref 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl ▪ Diffinio beth yw ystyr iechyd meddwl ▪ Deall y gwahanol fathau o gyflyrau iechyd meddwl a rhai symptomau ▪ Help a chefnogaeth/ cwnselwyr/ cyfeirio at feddygon teulu 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ffordd o Fyw a Llesiant Personol ▪ Mis Hanes Pobl Dduon: Hydref 2022 ▪ Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd 10 Hydref 2022 ▪ Holiadur sefydlu i ddysgwyr
10 Hydref 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyflwyniad i Prevent: beth mae'n ei olygu ▪ Diffinio eithafiaeth a gwahanol fathau o hunaniaeth ▪ Deall bod Prevent yn fater diogelu 	<p>Ffordd o fyw a Llesiant Personol</p> <p>Cyflwyniad Prevent</p> <p>Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 8-15 Hydref 2022</p>
17 Hydref 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Prevent (Parhâd) ▪ Deall hawliau a chyfrifoldebau ▪ Sut i fynegi barn yn y gyfraith/rhyddid i lefaru ▪ Deall canlyniadau camau gweithredu ▪ Cadw'n ddiogel yn y Coleg 	<p>Ffordd o fyw a Llesiant Personol</p> <p>Cyflwyniad diogelu</p>
24 Hydref 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymwybyddiaeth o straen ▪ Diffiniad o straen: adnabod yr arwyddion ▪ Sut gall straen effeithio ar y corff ▪ Cadernid fel ffordd o reoli straen: rhan 2: ▪ Deall elfennau gwrando gweithredol, iaith y corff ac ystyr, symptomau corfforol cyffredin ac achosion seicolegol ▪ Technegau rheoli straen 	<p>Ffordd o Fyw a Llesiant Personol: Adnoddau Cwnsela.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Wythnos Ryngwladol Ymwybyddiaeth o Straen 2-6 Tachwedd 2022
HANNER TYMOR		
7 Tachwedd 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Wythnos gwrth-fwlio ▪ Diffiniad o fwlio a chyfrifoldeb – cysylltu i bolisi'r myfyrwyr ar atal bwlio ac aflonyddu ▪ Deall yr angen am drin pawb gyda pharch wyneb yn wyneb ac ar-lein e.e. seibr fwlio ▪ Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ffordd o Fyw a Llesiant Personol: ▪ Wythnos gwrth-fwlio 14-18 Tachwedd 2022 ▪ Diwrnod y Cofio 11 Tachwedd 2022 ▪ Wythnos Ymwybyddiaeth Alcohol 11-16 Tachwedd 2022

14 Tachwedd 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyfoeth a Thlodi ▪ Bod yn ymwybodol o ddigartrefedd yng Nghastell-nedd Port Talbot a'r DU – Cysylltu ag ystadegau yng Nghastell-nedd Port Talbot ▪ Ardaloedd o amddifadedd ▪ Deall yr effaith mae digartrefedd a newyn yn ei chael ar bobl ▪ Edrych ar y cymorth sydd ar gael i unigolion sy'n ddigartref 	<p>Cyfrifoldeb Byd-eang</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Wythnos Ymwybyddiaeth o Newyn a Digartrefedd Genedlaethol 2 - 20 Tachwedd 2022 ▪ Wythnos Diogelu 12-16 Tachwedd 2022
21 Tachwedd 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Strategaethau Adolygu ▪ Deall y gwahanol fathau o strategaethau adolygu ▪ Sut i ddefnyddio strategaethau adolygu yn effeithiol 	<p>Sgiliau Dysgu</p> <p>Diwrnod y Rhuban Gwyn 25 Tachwedd 2022</p>
28 Tachwedd 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Strategaethau Adolygu (parhad) ▪ Rheoli amser ▪ Ateb cwestiynau arholiadau ▪ Rheoli baich gwaith 	<p>Sgiliau Dysgu</p> <p>Diwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anableddau: 3 Rhagfyr 2022</p>
5 Rhagfyr 2022	Gweithgareddau'r Nadolig	Nadolig
12 Rhagfyr 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Wythnos Ffug Arholiadau UG ▪ Gweithgareddau'r Nadolig a chwisiau 	Nadolig
19 Rhagfyr 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Wythnos Ffug Arholiadau UG ▪ Gweithgareddau'r Nadolig a chwisiau 	Nadolig
SEIBIANT Y NADOLIG		
9 Ionawr 2023	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Diffiniad o fwyta'n iach a beth yw deiet iach ▪ Esiamplau o ddeietau ffasiynol a'r peryglon ▪ Hunanasesiad bwyta'n iach ▪ Manteision ymarfer corff i iechyd a llesiant ▪ Y gweithgarwch corfforol a argymhellir yr wythnos ▪ Rhwystrau sy'n atal gweithgarwch corfforol 	<p>Ffordd o Fyw a Llesiant Personol: Bwyta'n iach ac Ymarfer Corff</p>
16 Ionawr 2023	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Perthnasoedd iach ▪ Beth yw perthynas iach ▪ Esbonio'r angen am ddatblygu perthnasoedd ▪ Gwahanol fathau o berthnasoedd ▪ Problemau cyffredin mewn perthnasoedd a datrysiadau posib ▪ Canlyniadau bod mewn perthynas heb fod yn iach ▪ Ymwybyddiaeth o Gamddefnyddio Sylweddau ▪ Llinellau Cyffuriau 	<p>Ffordd o Fyw a Llesiant Personol: Dewisiadau Ffordd o Fyw</p> <p>Cydysniad, Parch a'r Gyfraith – atebion i'ch cwestiynau Diogelu</p>

23 Ionawr	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Hawliau Dynol, Rhyfel a Gwrthdaro ▪ Senario chwarae rôl yn seiliedig ar argyfwng rhyngwladol ▪ Trafod confensiynau rhyngwladol ar les (Confensiwn Genefa, polisiau'r CU ac ati) 	<p>Cyfrifoldeb Byd-eang Dydd Santes Dwynwen 25 Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Diwrnod Cofio'r Holocost 27 Ionawr 2023
30 Ionawr 2023	<ul style="list-style-type: none"> ▪ LHDT+: Trosolwg ▪ Beth yw LHDT+? ▪ Myth yn erbyn realiti – adnodd gêm cardiau ▪ <u>Yr Unicorn Rhyw</u> 	<p>Ffordd o Fyw a Liesiant Personol: Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</p>
6 Chwefror 2023	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Sgiliau Cyflogadwyedd Rhan 1 ▪ Y sgiliau a'r rhinweddau gofynnol ar gyfer y gweithle, gan gynnwys datrys problemau, cyfathrebu a gwaith tîm ▪ Sgiliau meddal ▪ Barod am yrfa rhan 1 ▪ Archwiliad Sgiliau 	<p>Menter a Chyflogadwyedd</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Holiadur adolygu a gwerthuso'r ystafell ▪ Mis Hanes LHDT Chwefror 2023 ▪ Diwrnod Amser i Siarad: 6 Chwefror 2023 ▪ Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 8 Chwefror 2023
13 Chwefror 2023	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Diwylliant Cymraeg ▪ Deall diwylliant Cymru ▪ Hanes Dydd Gŵyl Dewi ▪ Traddodiadau Cymreig ▪ Cerddoriaeth Gymraeg ▪ <u>Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd</u> 	<p>Cymraeg@NPTCG:</p>
HANNER TYMOR		
27 Chwefror 2023	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Diwylliant Cymraeg ▪ Yr Iaith Gymraeg ▪ Manteision Dwyieithrwydd 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cymraeg@NPTCG ▪ Dydd Gŵyl Dewi 1af Mawrth 2023
6 Mawrth 2023	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Prentisiaethau a phrentisiaethau uwch neu'r brifysgol ▪ Llwybrau eraill i AU ▪ Manteision prentisiaethau a phrentisiaethau uwch 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Menter a Chyflogadwyedd ▪ Diwrnod Dim Ysmygu 8 Mawrth 2023 ▪ Diwrnod Rhyngwladol y Merched: 8 Mawrth 2023
13 Mawrth 2023	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Sgiliau Cyflogadwyedd Rhan 2 ▪ Barod am yrfa rhan 2: paratoi CV Paratoi ar gyfer cyfweiliad (cyn, yn ystod ac ar ôl) ▪ Cwestiynau allweddol mewn cyfweiliad 	<p>Menter a Chyflogadwyedd</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Wythnos Maeth a Hydradiad 11-18 Mawrth 2023

20 Mawrth 2023	<ul style="list-style-type: none"> Newid hinsawdd Cynaliadwyedd Yr amgylchedd naturiol: crynhoi dadleuon o blaid ac yn erbyn cynydu wedi'u haddasu'n enetig Trafod atebion sy'n helpu i ddatblygu bioamrywiaeth 	Cyfrifoldeb Byd-eang Diwrnod Rhyngwladol Atal Gwahaniaethu ar sail Hil 21 Mawrth 2023
27 Mawrth 2023	<ul style="list-style-type: none"> Defnydd a Gwastraff Cymharu fersiynau moesegol ac anfoesegol o gynhyrchion tebyg Olrhain tarddiad cynhyrchion cyfarwydd Gwerthuso'r cynnydd yn y defnydd o blastigau 	Cyfrifoldeb Byd-eang

GWYLIAU'R PASG

17 Ebrill 2023	<ul style="list-style-type: none"> Gwydnwch rhan 3: Atgoffa ac Adlewyrchu Myfyrwyr yn adlewyrchu ar eu sgiliau gwydnwch eu hunain Adlewyrchu ar beth yw ystyr bod yn ddysgwr cadarn Sut gall gwydnwch helpu i reoli arholiadau / cyfnodau llawn straen <u>Cwis Gwydnwch Kahoot</u> 	Ffordd o Fyw a Llesiant Personol: Gwydnwch Mis Ymwybyddiaeth o Straen Ebrill 2023
24 Ebrill 2023	<ul style="list-style-type: none"> Strategaethau adolygu parhad 	Sgiliau Dysgu
1 Mai 2023	<ul style="list-style-type: none"> Strategaethau adolygu parhad 	Sgiliau Dysgu
8 Mai 2023	Cyfnod arholiadau UG Dosbarthiadau UG yn gorffen 12 Mai 2023	Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl: 13 -20 Mai 2023
15 Mai 2023	<ul style="list-style-type: none"> Cyfnod arholiadau UG 	
22 Mai 2023	<ul style="list-style-type: none"> Cyfnod arholiadau UG 	

HANNER TYMOR

Canllaw'r Rhaglen Diwtorial - Blwyddyn 2

Gweler y Cynllun Gwaith penodol ar E-STEP

Wythnos	Pynciau'r Tiwtorial	Y Gweithgareddau sydd wedi'u Trefnu
29 Awst 2022	<ul style="list-style-type: none"> Sesiwn Sefydlu A2: 3:15-4:15pm Croeso'n ôl Gwirio amserlenni Cod ymddygiad myfyrwyr – ymddygiad a disgwyladau Polisi presenoldeb y myfyrwyr – esbonio'r broses ar gyfer absenoldebau a bod yn hwyr Edrych eto: Ble mae cael cymorth a chefnogaeth: Cymorth i Fyfyrwyr; diogelu llesiant Cyfleoedd Cynnwys Myfyrwyr 	<ul style="list-style-type: none"> Sesiwn Sefydlu Gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r cwrs
5 Medi 2022	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu presenoldeb grŵp Unrhyw bryderon? Trafodaeth am AU/Prentisiaethau/ Blwyddyn Fwlch/Byd Gwaith Proses UCAS/ysgrifennu CV 	<p>Menter a Chyflogadwyedd</p> <ul style="list-style-type: none"> Ysgrifennu cais UCAS/CV
12 Medi 2022	<ul style="list-style-type: none"> Diogelwch ar-lein/sut i warchod eich hun ar-lein Cyfrifoldeb digidol Pwysigrwydd cyfrineiriau Gwarchod eich hun ar gyfryngau cymdeithasol ac enw da ar-lein Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol Proses UCAS/ysgrifennu CV (myfyrwyr i weithio ar hyn yn eu hamser eu hunain a dod â chopïau drafft i mewn i diwtoriaid personol) Proses UCAS/ysgrifennu CV 	<p>Llythrennedd Digidol</p> <ul style="list-style-type: none"> Diogelwch ar-lein <p>UCAS</p> <ul style="list-style-type: none"> Proses UCAS/Ysgrifennu CV Diwrnod Iechyd Meddwl Ieuentid 19 Medi 2022 Wythnos Iechyd Rhywiol 13-18 Medi 2022
19 Medi 2022	<ul style="list-style-type: none"> Pwysigrwydd pennu targedau a MEG Sgyrsiau gan PDC: Pam AU a gwneud y dewis iawn Proses UCAS/ysgrifennu CV..... 	<p>Sgiliau Dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> Ysgrifennu cais UCAS/ CV Diwrnod Iechyd Meddwl Ieuentid 19 Medi 2022 Diwrnod Bi Visibility: 23 Medi 2022
26 Medi 2022	<ul style="list-style-type: none"> Gwerthoedd Prydeinig: Hunaniaeth a Diwylliant, Parch, Democratiaeth, Tegwch, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Sgyrsiau gan PDC: Llwybr UCAS a Datganiadau Personol Proses UCAS/ysgrifennu CV..... 	<p>Ffordd o Fyw a Llesiant Personol</p> <ul style="list-style-type: none"> Ysgrifennu cais UCAS/ CV

3 Hydref 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl ▪ Diffinio beth yw ystyr iechyd meddwl ▪ Deall y gwahanol fathau o gyflyrau iechyd meddwl a rhai symptomau ▪ Cymorth a chefnogaeth/cwnselwyr/atgyfeirio at feddygon teulu ▪ Proses UCAS/ysgrifennu CV 	<p>Ffordd o Fyw a Llesiant Personol</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Mis Hanes Pobl Dduon: Hydref 2022 ▪ Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd 10 Hydref 2022
10 Hydref 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Deall beth yw Prevent ▪ Diffinio eithafiaeth a gwahanol fathau o hunaniaeth ▪ Deall bod Prevent yn fater diogelu ▪ Cysylltu â'r fideo rhedeg, cuddio a dweud ▪ Beth yw Troseddau Casineb? ▪ Dyddiad cau Oxbridge a Medd/Deint/ Gwyddoniaeth Milfedd 15 Hydref 2022 ▪ Proses UCAS/ysgrifennu CV (myfyrwyr i weithio ar hyn yn eu hamser eu hunain a dod â chopïau drafft i mewn i diwtoriaid personol) 	<p>Ffordd o Fyw a Llesiant Personol</p> <p>Prevent</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 8-15 Hydref 2022 ▪ Dyddiad cau Oxbridge
17 Hydref 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Prevent (parhad) ▪ Deall hawliau a chyfrifoldebau ▪ Sut i fynegi barn yn y gyfraith/rhyddid i lefaru ▪ Deall canlyniadau camau gweithredu ▪ Proses UCAS/ysgrifennu CV (myfyrwyr i weithio ar hyn yn eu hamser eu hunain a dod â chopïau drafft i mewn i diwtoriaid personol) 	<p>Ffordd o Fyw a Llesiant Personol</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Prevent
24 Hydref 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymwybyddiaeth o straen ▪ Diffiniad o straen: adnabod yr arwyddion ▪ Sut gall straen effeithio ar y corff ▪ Gwydnwch a pham mae'n bwysig ▪ Gwydnwch fel ffordd o reoli straen ▪ Technegau rheoli straen 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ffordd o Fyw a Llesiant Personol ▪ Wythnos Ryngwladol Ymwybyddiaeth o Straen 1-5 Tachwedd 2022
HANNER TYMOR		
7 Tachwedd 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Wythnos gwrth-fwlio ▪ Diffiniad o fwlio a chyfrifoldeb – cysylltu i bolisi'r myfyrwyr ar atal bwlio ac aflonyddu ▪ Deall yr angen am drin pawb gyda pharch wyneb yn wyneb ac ar-lein e.e. seibr fwlio ▪ Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 	<p>Ffordd o Fyw a Llesiant Personol</p> <p>Wythnos Gwrth-fwlio 14-18 Tachwedd 2022</p> <p>Diwrnod y Cofio 11 Tachwedd 2022</p> <p>Wythnos Ymwybyddiaeth o Alcohol 11-16 Tachwedd 2022</p> <p>Dyddiad cau mewnol UCAS 11 Tachwedd 2022</p>

14 Tachwedd 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyfoeth a Thlodi ▪ Bod yn ymwybodol o ddigartrefedd yng Nghastell-nedd Port Talbot a'r DU – Cysylltu ag ystadegau yng Nghastell-nedd Port Talbot ▪ Ardaloedd o amddifadedd ▪ Deall yr effaith mae digartrefedd a newyn yn ei chael ar bobl ▪ Edrych ar yr help sydd ar gael i unigolion sy'n ddigartref 	Cyfrifoldeb Byd-eang <ul style="list-style-type: none"> ▪ Wythnos Ymwybyddiaeth o Newyn a Digartrefedd Genedlaethol ▪ Diwrnod Cofio Pobl Trawsryweddol 20 Tachwedd 2022
21 Tachwedd 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Proses UCAS derfynol / ysgrifennu CV 	UCAS Terfynol Diwrnod y Rhuban Gwyn 22 Tachwedd 2022
28 Tachwedd 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Proses UCAS derfynol / ysgrifennu CV 	UCAS Terfynol Diwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anabeddu: 3 Rhagfyr 2022
5 Rhagfyr 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Strategaethau Adolygu ▪ Deall y gwahanol fathau o strategaethau adolygu ▪ Sut i ddefnyddio strategaethau adolygu yn effeithiol ▪ Sut i adolygu yn effeithiol ▪ Cwis Nadolig 	Sgiliau Dysgu <ul style="list-style-type: none"> ▪ Nadolig
12 Rhagfyr 2022	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Strategaethau Adolygu parhad ▪ Rheoli amser ▪ Ateb cwestiynau arholiadau ▪ Rheoli baich gwaith ▪ Cwis Nadolig 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Sgiliau Dysgu ▪ Nadolig
19 Rhagfyr 2022	Cwis Nadolig	Nadolig
SEIBIANT Y NADOLIG		
9 Ionawr 2023	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ffug Arholiadau U2 ▪ Diffinio bwyta'n iach a beth yw diet iach ▪ Esiamplau o deietau ffasiynol a'r peryglon ▪ Hunan-asesiad bwyta'n iach ▪ Manteision ymarfer corff i iechyd a llesiant ▪ Rhwystrau sy'n atal gweithgarwch corfforol 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ffordd o Fyw a Llesiant Personol ▪ Ymarfer corff a bwyta'n iach

16 Ionawr 2023	<ul style="list-style-type: none"> Perthnasoedd iach Beth yw perthynas iach Esbonio'r angen am ddatblygu perthnasoedd Gwahanol fathau o berthnasoedd Problemau cyffredin mewn perthnasoedd a datrysiadau posib <p>Canlyniadau bod mewn perthynas heb fod yn iach</p> <p>Ymwybyddiaeth o Gamddefnyddio Sylweddau Llinellau Cyffuriau</p>	<ul style="list-style-type: none"> Ffordd o Fyw a Llesiant Personol: Dewisiadau Ffordd o Fyw <p>Cydsyniad, Parch a'r Gyfraith – atebion i'ch cwestiynau Diogelu</p>
23 Ionawr 2023	<ul style="list-style-type: none"> Cyfrifoldeb byd-eang Hawliau Dynol, Rhyfel a Gwrthdaro Senario chwarae rôl yn seiliedig ar argyfwng rhyngwladol <p>Trafod confensiynau rhyngwladol ar les (Confensiwn Genefa, polisiâu'r CU ac ati)</p>	<p>Cyfrifoldeb Byd-eang</p> <ul style="list-style-type: none"> Diwrnod Cofio'r Holocaust 27 Ionawr 2023 Dydd Santes Dwynwen 25 Ionawr 2023 Dyddiad cau allanol UCAS
30 Ionawr 2023	<ul style="list-style-type: none"> LHDT+: Trosolwg Beth yw LHDT+? Myth yn erbyn realiti – adnodd gêm cardiaid Yr Unicorn Rhyw 	<p>Ffordd o Fyw a Llesiant Personol: ydraddoldeb ac amrywiaeth</p>
6 Chwefror 2023	<ul style="list-style-type: none"> Sgiliau Cyflogadwyedd Rhan 1 Y sgiliau a'r rhinweddau gofynnol ar gyfer y gweithle, gan gynnwys datrys problemau, cyfathrebu a gwaith tîm Sgiliau meddal Barod am yrfa rhan 1 Archwiliad Sgiliau 	<p>Menter a Chyflogadwyedd</p> <ul style="list-style-type: none"> Holiadur adolygu a gwerthuso'r ystafell ddosbarth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Mis Hanes LHGT Chwefror 2023 Diwrnod Amser i Siarad 6 Chwefror 2023 Diwrnod Defnyddio'r Rhyngwyd yn Fwy Diogel 8 Chwefror 2023
13 Chwefror 2023	<ul style="list-style-type: none"> Diwylliant Cymraeg Deall diwylliant Cymru Hanes Dydd Gŵyl Dewi Traddodiadau Cymreig Cerddoriaeth Gymraeg Eisteddford Genedlaethol yr Urdd 	<ul style="list-style-type: none"> Cymraeg@NPTCG:
HANNER TYMOR		
27 Chwefror 2023	<ul style="list-style-type: none"> Diwylliant Cymraeg Yr Iaith Gymraeg Manteision Dwyieithrwydd 	<ul style="list-style-type: none"> Cymraeg@NPTCG: Dydd Gŵyl Dewi 1af Mawrth 2022

6 Mawrth 2023	<ul style="list-style-type: none"> Sgiliau Cyflogadwyedd Rhan 2 Barod am yrfa rhan 2: Paratoi ar gyfer cyfweiliad Cwestiynau allweddol mewn cyfweiliad 	Menter a Chyflogadwyedd <ul style="list-style-type: none"> Diwrnod Dim Ysmygu 8 Mawrth 2022 Diwrnod Rhyngwladol y Merched: 8 Mawrth 2022
13 Mawrth 2023	<ul style="list-style-type: none"> Rheolaeth Ariannol Cyllidebu 	Menter a Chyflogadwyedd <ul style="list-style-type: none"> Wythnos Maeth a Hydradiad 11 - 18 Mawrth 2023
20 Mawrth 2023	<ul style="list-style-type: none"> Newid hinsawdd Cynaliadwyedd Yr amgylchedd naturiol: crynhoi dadleuon o blaid ac yn erbyn cynydu wedi'u haddasu'n enetig Trafod atebion sy'n helpu i ddatblygu bioamrywiaeth 	Cyfrifoldeb Byd-eang Diwrnod Rhyngwladol Atal Gwahaniaethu ar sail Hil 21 Mawrth 2023
27 Mawrth 2023	<ul style="list-style-type: none"> Defnydd a Gwastraff Cymharu fersiynau moesegol ac anfoesegol o gynhyrchion tebyg Olrhain tarddiad cynhyrchion cyfarwydd Gwerthuso'r cynnydd yn y defnydd o blastigau 	Cyfrifoldeb Byd-eang

GWYLIAU'R PASG

17 Ebrill 2023	<ul style="list-style-type: none"> Gwydnwch rhan 3: Atgoffa ac Adlewyrchu: Myfyrwyr yn adlewyrchu ar eu sgiliau gwydnwch eu hunain Adlewyrchu ar beth yw ystyr bod yn ddysgwr cadarn Sut gall gwydnwch helpu i reoli arholiadau / cyfnodau llawn straen Cwis Gwydnwch Kahoot 	Ffordd o Fyw a Llesiant Personol: Llesiant a Gwydnwch Mis Ymwybyddiaeth o Straen Ebrill 2023
24 Ebrill 2023	<ul style="list-style-type: none"> Strategaethau Adolygu/Sgiliau Astudio parhad 	Sgiliau Dysgu
1 Mai 2023	<ul style="list-style-type: none"> Strategaethau Adolygu/Sgiliau Astudio parhad 	Sgiliau Dysgu
8 Mai 2023	<ul style="list-style-type: none"> Strategaethau Adolygu/Sgiliau Astudio parhad 	<ul style="list-style-type: none"> Sgiliau Dysgu Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl 13-20 Mai 2023
15 Mai 2023	<ul style="list-style-type: none"> Strategaethau Adolygu/Sgiliau Astudio parhad Addysgu A2 yn dod i ben ddydd Gwener 	Sgiliau Dysgu


19 Mai 2023

22 Mai 2023

▪ Arholiadau A2 yn dechrau

Sgiliau Dysgu

HANNER TYMOR



Rôl Tiwtoriaid Personol mewn Hybu Presenoldeb, Cadw a Chyflawni

Cefnogi Dysgwyr

Mae tiwtoriaid personol yn chwarae rôl hanfodol mewn cefnogi myfyrwyr. Mae llawer o fyfyrwyr newydd yn cyrraedd y coleg i ddechrau ar raglen ddysgu newydd a heriol. Bydd rhai myfyrwyr yn cyrraedd ac yn setlo'n hawdd iawn i fywyd coleg; bydd eraill yn cael y newid yn anos. Efallai eu bod yn ansicr am y safonau gwaith a ddisgwylir ganddynt ac efallai y byddant eisiau siarad â thiwtoriaid personol am agweddau ar eu cwrs sy'n heriol iddynt. Dylid annog myfyrwyr i ysgwyddo cyfrifoldeb am gyfathrebu eu hanghenion a gofyn am gefnogaeth briodol. Fodd bynnag, rhaid deall bod myfyrwyr yn gallu teimlo cywilydd am fynegi angen am help ychwanegol neu'r ffaith bod rhai agweddau ar fywyd y coleg yn fwy o her na'r disgwyl. Efallai y bydd gan eraill anawsterau yn eu bywyd personol, sy'n cael effaith hefyd o bosib ar astudio yn y coleg. Mewn rhai achosion, gall siarad â thiwtoriaid personol ddatrys y broblem. Mewn achosion eraill, efallai bod angen cyfeirio'r myfyriwr at wasanaethau cefnogi priodol sy'n rhan o Wasanaethau Myfyrwyr, Cymorth i Fyfyrwyr, lle bydd cyfle i'r myfyrwyr gael cymorth cwnsela, lles a sgiliau astudio.

Materion Presenoldeb

Mae presenoldeb o ansawdd uchel yn hanfodol er mwyn i ddysgwyr gyflawni. Felly mae'n hanfodol bod tiwtoriaid yn gallu edrych yn gyffredinol ar bresenoldeb myfyrwyr unigol yn yr holl bynciau a astudir, yn rheolaidd, er mwyn canfod unrhyw batrymau absenoldeb a rhoi mesurau cefnogol yn eu lle. Mae hyn yn cynnwys monitro presenoldeb mewn gwersi pwnc a hefyd mewn dosbarthiadau sgiliau e.e. TGAU, TGAU 2 flynedd, dechrau TGAU, Sgiliau sylfaenol, Sgiliau hanfodol a CBC. Mae absenoldeb difrifol gan fyfyrwyr yn arwain at golli cyfleoedd dysgu ac, yn y pen draw, mae'n atal dysgwyr rhag cyflawni eu rhaglen astudio yn llwyddiannus ac i safon uchel. Rhaid i diwtoriaid sicrhau eu bod yn cadarnhau'r disgwyliadau uchel o ran presenoldeb o'r dechrau ac amlinellu goblygiadau presenoldeb gwael gan ddysgwyr. Hefyd mae tiwtoriaid yn chwarae rôl allweddol mewn cysylltu â rhieni/gwarcheidwaid pan mae presenoldeb gwael yn datblygu i fod yn broblem gyson a phan nad oes llawer o welliant, dylid cyfeirio'r pryderon i sylw Dirprwy Bennaeth yr Ysgol.

Adolygiadau Un i Un a Phennu Targedau

Mae tiwtoriaid personol yn chwarae rôl allweddol mewn cynnal sesiynau un i un gyda'r myfyrwyr yn eu grŵp tiwtorial personol. Rhaid pennu targedau yn seiliedig ar gyflawniad blaenorol a chan ddefnyddio ALPs MEGs (graddau disgwylidig gofynnol). Yn ystod y sesiynau un i un, gall y myfyrwyr adlewyrchu ar ganlyniadau asesiadau dosbarth a dylent allu defnyddio'r adborth a gafwyd gan bynciau er mwyn pennu targedau SMART ar gyfer gwella yn y dyfodol. Bydd rhaid i'r tiwtor personol sicrhau bod targedau'n cael eu pennu nid yn unig ar gyfer y prif bynciau ond hefyd targedau ar gyfer llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol a WEST. Gellir defnyddio'r cofnod dysgu personol i ddangos tystiolaeth o sesiynau un i un a phennu targedau, yn ogystal â defnyddio On-track.

Datblygu Sgiliau/Ychwanegedd

Rhaid i diwtoriaid personol sicrhau bod y myfyrwyr yn eu grŵp tiwtorial wedi cofrestru ar gyrsiau sgiliau priodol e.e. TGAU, TGAU 2 flynedd, dechrau TGAU, Sgiliau sylfaenol, Sgiliau hanfodol/CBC/GATE. Bydd hyn yn digwydd yn ystod y prif gyfnod cofrestru ym mis Awst, ond mae'n hanfodol bod tiwtoriaid yn gwirio hyn yn ystod y cyfnod croesawu. Felly bydd rhaid i fyfyrwyr ddefnyddio'r canllaw llythrennedd/rhifedd er mwyn sicrhau eu bod yn cofrestru ar y cwrs sgiliau priodol.

Proses ar gyfer Monitro Absenoldeb

Cam 1

Mae'r darlithwyr yn cysylltu ag unrhyw fyfyrwr sydd ar goll o 2 wers yn olynol heb esboniad rhesymol. Cofnod o'r drafodaeth a'r rhesymau ar Ontrack o dan yr adran fugeiliol.



Cam 2

Os nad oes unrhyw welliant ac os bydd yr absenoldeb yn parhau, bydd y darlithydd yn cysylltu â'r Tiwtor Personol a fydd yn siarad â'r myfyrwr mewn tiwtorial a / neu'n ffonio ei gartref ac yn siarad â'r rhieni a, lle bo hynny'n briodol, yn rhoi rhybudd llafar. Ar yr adeg yma mae angen cwblhau Cynllun Gweithredu ar gyfer gwella. Y tiwtor hefyd i atgyfeirio at gymorth myfyrwr lle bo hynny'n briodol a'r swyddog pontio / cadw.



Cam 3

Os na fydd unrhyw welliant bydd y Tiwtor Personol yn cysylltu â Dirprwy Bennaeth yr Ysgol a threfnir cyfarfod gyda'r myfyrwr a'r rhieni. Bydd y broses ddisgyblu ffurfiol yn cychwyn.

Mae ymyriadau cynnar yn allweddol i sicrhau bod myfyrwyr yn aros ar y llwybr at gwblhau eu cyrsiau a chyflawni'n llwyddiannus.

Mae'n hanfodol sicrhau bod pob cam yn cael ei gofnodi a'i uwchlwytho i Ontrack.



RÔL TIWTORIAID PERSONOL MEWN HYBU SGILIAU CRAIDD A THRACIO GWELLIANT I FYFYRWYR

- Pennu ac adolygu targedau gan gynnwys Llythrennedd, Rhifedd a Llythrennedd Digidol o WEST
- Sicrhau bod y myfyrwyr wedi cofrestru ar gyrsiau lefel sgiliau craidd priodol (rhaglenni ailsefyll TGAU / ychwanegolrwydd sgiliau)
- Monitro presenoldeb mewn dosbarthiadau sgiliau craidd (yn ychwanegol at y prif gwrs):
 - Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (WBQ)
 - Cymwysterau Sgiliau Hanfodol
 - Rhaglenni ailsefyll TGAU, gan gynnwys dosbarthiadau TGAU 1 flwyddyn a 2 flynedd, Skills Forward ac Agored.
- Cwblhau ac adolygu eCDU
- Cwblhau'r Rhaglen Datblygu Meddylfryd VESPA gyda phob myfyriwr lefel 3 yn y flwyddyn gyntaf neu'r ail flwyddyn:
 - *Darparu'r gweithgareddau Meddylfryd VESPA*
 - *Helpu myfyrwyr i wreiddio'r agweddau newydd a gyflwynwyd iddynt*
 - *Cynnal wythnosau myfyrio i drafod llwyddiant yr agweddau newydd*
 - *Sicrhau bod myfyrwyr yn cwblhau'r 3 holiadur VESPA ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn*



Strategaethau Addysgu Cynhwysol

Syniadau i helpu i leihau pryder a chreu amgylchedd cynhwysol ar gyfer dysgwyr ADY

Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig

- Darparu cymhorthion gweledol
- Rhoi cyfarwyddiadau clir
- Sefydlu trefn a strwythur da
- Cadw disgwyliadau'n gyson
- Rhoi rhybudd o newidiadau i'r drefn os yw hynny'n bosib

Ymddygiad

- Ceisio sicrhau cyn lleied â phosib o darfu
- Caniatáu seibiant os oes angen
- Amrywio gweithgareddau a thasgau
- Cadarnhau ymddygiad positif

Dyslecsia

- Defnyddio fframiau ysgrifennu
- Lleihau nifer y cyfarwyddiadau ysgrifenedig a roddir
- Defnyddio gorchuddion lliw priodol i unigolion
- Bod yn barod i roi amser ychwanegol
- Creu taflenni i leihau cymryd nodiadau

Emosiynol

- Creu amgylchedd dysgu diogel i ddysgwyr
- Rhoi cyfle i ddysgwyr dawelu/cael seibiant
- Rhoi sicrwydd os oes angen
- Darparu ystafell dawel/gofod hamddenol i ddysgwyr

Symudedd

- Gwneud yr ystafell ddosbarth yn ddiogel rhag peryglon
- Paru gyda chyfoedion
- Caniatáu i'r dysgwr adael ychydig yn gynnar os yw'r coridorau'n mynd yn brysur
- Gwneud yn siŵr bod yr adeiladau/ystafelloedd dosbarth yn hygyrch

Dyscalwlia

- Defnyddio adnoddau gweledol
- Rhoi grid lluosogi i ddysgwyr
- Caniatáu amser ychwanegol
- Rhoi amser i ailadrodd tasgau/adolygu

Gweledol

- Meddwl ble mae'r dysgwr yn eistedd yn y dosbarth (agos i'r blaen)
- Chwyddo/lleihau testun i faint priodol
- Ystyried goleuo – cynyddu neu hyd yn oed leihau os yw'r dysgwr yn ffotoffobig
- Sicrhau bod gan y dysgwyr yr offer cywir y mae arnynt ei angen

Clywed

- Defnyddio cymhorthion radio/microffon
- Wynebu'r dysgwr wrth siarad
- Defnyddio cymhorthion gweledol
- Meddwl ble mae'r dysgwr yn eistedd yn y dosbarth (agos i'r blaen)

Cysylltwch â: studysupport@nptcgroup.ac.uk os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am gefnogaeth i fyfyrwyr.

Mae gwybodaeth am ADY/Anabledau myfyriwr ar gael o dan Broffil Ontrack unigol y myfyriwr o dan yr adran '**Anghenion Cefnogi**'. Bydd unrhyw wybodaeth arall ar gael o dan '**Dogfennau**'.

Dileu Jargon ADY

ADY: 'Anghenion Dysgu Ychwanegol'. Mae'r term yma wedi dod yn lle AAA - Anghenion Addysgol Arbennig.

TAADY: Mae hwn yn cyfeirio at y 'Ddeddf Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol' newydd yng Nghymru. Deddfwriaeth newydd sy'n cyfeirio at sut mae ieuencid 0 i 25 oed ag ADY yn cael eu cefnogi.

Cydlynedd ADY (CydADY): Y person sy'n gyfrifol am gydlyn darpariaeth ADY mewn lleoliad addysgol. Mae'r term yma wedi dod yn lle rôl y CydAAA (Cydlynedd AAA).

ADHD: 'Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd' – mae ADHD yn amrywiaeth o broblemau ymddygiad cysylltiedig ag anawsterau â gallu i ganolbwyntio, gan gynnwys anesmwythder a gorfywiogrwydd.

ASA: 'Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig' – y term a ddefnyddir ar gyfer anhwylderau amrywiol sy'n effeithio ar ddatblygu rhyngweithio cymdeithasol, cyfathrebu a dychymyg. Weithiau defnyddir CSA – Cyflwr ar y Sbectrwm Awtistig.

BESD: 'Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a/neu Gymdeithasol'.

CAMHS: 'Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant ac Ieuencid' – gwasanaeth i ddarparu help, cymorth a gofal i blant a phobl ifanc sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl.

NC: Nam ar y Clyw

CDU: 'Cynllun Datblygu Unigol'. Bydd hwn yn dod yn orfodol yn y Coleg i bob unigolyn (hyd at 25 oed) os oes arno angen cefnogaeth ddysgu ychwanegol. Bydd y CDU yn amlinellu unrhyw anghenion unigol, gan gynnwys unrhyw strategaethau dysgu a chefnogi. Bydd y CDU yn dod i gymryd lle'r Cynllun Dysgu a Sgiliau (CDS) yn fuan, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan Gyrfa Cymru.

Anawsterau Dysgu: Mae gan unigolyn anhawster dysgu os yw'n ei chael yn sylweddol anos dysgu o gymharu ag eraill o'r un oedran.

CDS: Cynllun Dysgu a Sgiliau: Os oes gan unigolyn Ddatganiad o Anghenion Addysgol yn yr ysgol, bydd hwn yn dod i ben pan ddaw i'r

Coleg a bydd CDS yn cymryd ei le. Os oes gan fyfyrwr CDS, gellir edrych arno o dan 'dogfennau' ar Broffil y myfyrwr ar Ontrack. Bydd **CDU'au** (Cynlluniau Datblygiad Unigol) yn dod i gymryd lle'r CDS'au yn 2020.

ADC: Anawsterau Dysgu Cymedrol.

Aml-ddisgyblaethol: yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o ddisgyblaethau amrywiol (fel rheol, Addysg, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

ADDLI: 'Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog' – yn ychwanegol at anawsterau dysgu difrifol iawn, efallai bod gan unigolion anawsterau sylweddol eraill, fel anabledau corfforol, nam ar y synhwyrau neu gyflwr meddygol difrifol. Bydd unigolion sydd ag ADDLI angen lefel uchel o gymorth, ar gyfer anghenion dysgu a gofal personol.

Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig: dogfen gyfreithiol sy'n datgan anghenion addysgol arbennig plentyn a'r gefnogaeth ychwanegol y mae'n rhaid iddo ef neu hi ei chael.

SEAL: 'Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu'.

NS: 'Nam ar y Synhwyrau'. Weithiau cyfeirir at hyn fel Nam Aml-Synhwyraidd.

SLCD: 'Anawsterau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu' – efallai y caiff unigolion anawsterau gydag iaith fynegiannol neu iaith oddefol a/neu brosesu anawsterau.

ADD: 'Anawsterau Dysgu Dwys' – mae gan unigolion ag anawsterau dysgu dwys namau deallusol a gwybyddol sylweddol. Hefyd efallai eu bod yn cael anawsterau gyda symud a chydymud, cyfathrebu a dirnad. Bydd angen cefnogaeth ym mhob maes o'r cwricwlwm.

ADP: 'Anawsterau Dysgu Penodol' mewn maes penodol o'r cwricwlwm.

NG: 'Nam ar y Golwg' – amrywiaeth o anawsterau o fod yn rhannol ddall i fod yn ddall.

Cysylltwch â:
studysupport@nptcgroup.ac.uk os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu ymholiadau am gymorth i fyfyrwyr

